Bwletin Rieni 21/05/21

Annwyl Riant/Warcheidwad

Dyddiadau Allweddol

Dydd Mercher	26/5	Gweithgareddau ymadael Blwyddyn 13
Dydd Iau	27/5	Gweithgareddau ymadael Blwyddyn 11
Dydd Gwener	28/5	Diwrnod HMS
Dydd Llun-Gwener	31/5-4/6	HANNER TYMOR
Dydd Llun-Gwener	7/6-11/6	Wythnos paratoi am y dyfodol – darpariaeth ar-lein i flwyddyn 12
Dydd Mercher	9/6	Diwrnod HMS
Dydd Llun	14/6	Cyflwyniad i rieni ar ganlyniadau a'r system adolygiadau canolfan
Dydd Mawrth	15/6	Canlyniadau dros-dro Safon Uwch / UG
Dydd Mercher	16/6	Canlyniadau dros-dro TGAU
Dydd Iau a Gwener	17&18/6	Apwyntiadau i drafod canlyniadau
Dydd Mercher	23/6	Diwrnod cyflwyno'r chweched

Llongyfarchiadau: Theatr Ieuenctid Cenedlaethol

Mae dau o griw talentog blwyddyn 12 yr adran Ddrama wedi cael eu derbyn i fod yn aelodau o gwmnïau theatr ieuenctid y National Theatre. Dros y gwyliau Haf bydd Gruffydd Rhys Evans yn rhan o weithdy datblygu y National Youth Theatre yn Northampton, a bydd Glain Llwyd Davies yn ymarfer a pherfformio sioe gerdd newydd sbon o'r enw 'Our Girls, Our Game' yn Farsley, Leeds gyda'r British Youth Musical Theatre. Mae hyn yn dipyn o gamp gan fod dros 600 o bobl ifanc wedi ymgeisio am le gyda'r ddau gwmni eleni - llongyfarchiadau mawr iddynt!

Asesiadau allanol: Y broses adolygiadau

Mae disgyblion sy'n derbyn canlyniadau TGAU, Safon Uwch ac UG ym mis Mehefin yn medru gwneud cais am adolygiad mewnol os credant fod gwall yn y canlyniad. Bydd rhaid iddynt nodi eu rhesymau am yr adolygiad. Mae canllawiau wedi ein cyrraedd o CBAC a byddwn yn llunio proses sy'n dilyn y canllawiau hyn. Bydd hawl i ddisgyblion gwneud cais am adolygiad allanol yn dilyn y canlyniadau ffurfiol ym mis Awst.

Blwyddyn 11 a 13

Bydd blwyddyn 11 a 13 yn gorffen eu blynyddoedd yn yr ysgol yr wythnos hon. Hoffwn ddiolch i'r disgyblion a chi rhieni am eich cydweithrediad a'ch Cymorth eleni a thrwy holl gyfnod ysgol eich plant. Mae hwn yn ddiwedd flwyddyn wahanol iawn ond gobeithiwn fod dyddiau gwell ar y gorwel.

Cyfleoedd Peirianneg i fyfyrwyr blwyddyn 12

"UWTSD in partnership with the Engineering Education Scheme Wales (EESW), are offering ***FREE*** *workshops for students living and studying in Wales between 28 June - 2 July 6.00-8.30pm.*

Delivered by the Applied Computing, Engineering & Product Design departments at UWTSD Swansea, students that sign up for the online event will have the exciting opportunity to work on a real-world project with an industrial partner who has commissioned the University to devise a solution to an industrial problem.

Students will work in teams over the course of a week to complete the task in a collaborative way that is representative of industry best practice.

It's a great opportunity for students to discover which subject is best for them, before making UCAS applications and final decisions on their University course.

Students can apply to attend by completing an online registration form (https://uwtsd-marketingandcommunication.cmail20.com/t/i-l-murjkyd-tltyuriyjk-t/) . Places will be allocated on a first-come, first-served basis and successful applicants will be contacted via e-mail.

*The deadline for application is the **15th June at 5pm,** so apply now!"*

Dymunaf benwythnos da i chi gyd,



Dr Rhodri Thomas
(Pennaeth)